




Y Siarter Iaith



Fel pob un ysgol ym Môn, mae Ysgol Uwchradd Bodedern wedi ymrwymo i'r Siarter Iaith. Nod y siarter yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol o ddydd i ddydd.

Mae disgyblion Bodedern eisoes yn byw eu bywydau addysgol drwy'r Gymraeg, ac i ddatlu ein Cymreictod a'n diwylliant cynhaliwyd Noson Santes Dwynwen. Diolch i'r staff a Mared Owen a'i chriw o flwyddyn 12 am drefnu cyngerdd o fandiau Cymraeg ac adloniant. Diben arall i'r noson oedd codi arian ar gyfer apêl Beth Frazer, a diolch i bawb am eu cyfraniadau. Codwyd £600.13.

Yn y lluniau gwelwn ddisgyblion blwyddyn 9 yn mwynhau'r noson a'r ddau ddigrifwr, Mr Roberts a Mr Francis yn diddanu'r gynulleidfa.



Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu yn ein cymunedau, rhaid gwneud defnydd o'r sgiliau a ddatblygir mewn addysg yn y byd gwaith. I godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd y Gymraeg mewn diwydiant, cynhaliwyd ffair yrfaedd i ddisgyblion blwyddyn 9 yn Ysgol David Hughes.


Cafodd y disgyblion gyflwyniadau a chyfle i holi a thrafod gyda chynrychiolwyr o fyd busnes o'u defnydd o'r Gymraeg.

Yn y llun gwelir disgyblion blwyddyn 9 yn holi swyddogion am gyrsiau drwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

- Llongyfarchiadau i **Iona Williams** o flwyddyn 11 ar ei llwyddiannau ym mhencampwriaethau codi pwysau leuenctid Cymru yn Hwlfordd yn ddiweddar.
- Cynhaliwyd y rownd gyntaf o **Cogurdd** ar Ionawr 26ain ac roedd saith o ddisgyblion brwdfrydig iawn Ysgol Uwchradd Bodedern yn cystadlu. Cafodd y beirniad Richard Gareth Holt, prif gogydd Gwesty'r Tarw Du ym Miwmares ei blesio'n arw gyda safon uchel y cystadleuwyr. Yn fuddugol yn yr adran Bl.10 -19 oed oedd Kirsten MacDonald. Yn oedran Bl,7, 8 & 9 daeth Zoe Adamkiewicz yn gyntaf, Ceri Thomas yn ail ac yn gydradd drydedd Louise Thomas, Ellen Irwin, Ela Owen ac Alaw Renshaw.
- Llongyfarchiadau i **Seren Sellers** o flwyddyn 9 am fod yn llwyddiannus yn ei chais i ddilyn rhaglen clwb Sadwrn Darganfod Gwyddoniaeth, pob lwc iddi.
- Gwych oedd gweld cymaint o ddisgyblion Bodedern yn y cyngerdd ardderchog i ddatlu 10 mlynedd ers sefydlu Aelwyd yr Ynys. Edrychwn ymlaen at y 10 mlynedd nesaf.
- Braf oedd clywed am gyfraniad **Lewis Bleese, Brandon Rickards, Kieran Richards a Michaela Doughty** yng nghinio Sul blynyddol i bensiynwyr yn Neuadd Llanfaethlu yn ddiweddar. Da iawn chi! Rydych wedi derbyn canmoliaeth mawr am eich gwaith caled.



Gwobrwyo Presenoldeb Ardderchog



Llongyfarchiadau i bawb am eu gwelliant yn eu canran presenoldeb. Targed yr ysgol yw presenoldeb o 95% i bob plentyn. Cofiwch bod pob diwrnod ysgol yn bwysig.

Fel rhan o sustem wobrwyo'r ysgol, unwaith eto cafwyd raffl presenoldeb. Mae pob disgybl sydd â chanran presenoldeb rhwng 95% a 100% yn cael tocyn i geisio ennill talebau stryd fawr.

Enillwyr tymor yr Hydref oedd Heidi Evans, Jack Lander, Kai Hughes, Gwyndaf Owen a Ioan Jordan.

Diolch yn fawr i'r holl rieni a gwarchodwyr am eich cefnogaeth.

Llais Y Disgybl

Mae'r Cyngor Ysgol wedi gweithio'n galed iawn ers y Nadolig drwy gynnal cyfarfod gyda'n darparwyr bwyd Caterlink. Cafwyd cyfarfod buddiol iawn, lle trafodwyd ein polisi o fwyta'n iach a chytunwyd i'r cyngor ddechrau treialu a dewis bwydlen newydd gyda help y cwmni. Diolch i'r gegin am safon cyson y bwyd, ac yn arbennig y pryd arbennig i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen.

Yn ychwanegol, cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddog Llais Ni ym Môn, Awen Dodds. Diolch i Awen am ei chyflwyniad i'r cyngor. Gwelwyd nifer o ddisgyblion yn barod i ymuno â'r fforwm er mwyn cael dweud eu dweud am faterion sy'n codi pryder. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y fenter, gellir cysylltu ag Awen drwy llaisni@anglesey.gov.uk neu ffonio ar 07500050208.



Da oedd clywed am gyfraniad tair o'n disgyblion yn mynychu'r gynhadledd **Dim ond Atebion** a drefnwyd gan fforwm Ieuenctid yr Urdd. Roedd Gwen Edwards, Mari Williams ac Elain Rhys yn cynrychioli cangen Môn. Cynhaliwyd y gynhadledd ar Ddydd Gwener 30ain o Ionawr yng Nghaerdydd.

Roedd y Prif Weinidog Carwyn Jones yn agor y gynhadledd yn swyddogol ac mi gafodd y bobl ifanc y cyfle i sgwrsio gyda'r prif weinidog. Cynhaliwyd sesiwn Holi ac Ateb gyda Betsan Powys Pennaeth Radio Cymru, Ian Jones Pennaeth S4C a Nigel Owens, y dyfarnwr rygbi byd enwog. Clwyd y diwrnod gyda disco.